# PRIF WEITHREDWR

**Briff i Ymgeiswyr**
**Medi 2024**

S4C /

**S4C I BAWB**
EVERYONE'S **S4C**



# CYFLWYNO S4C

Mae S4C yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus sy'n bodoli i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg. Ein swyddogaeth yw i sbarduno'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i greu cynnwys uchelgeisiol ac unigryw sy'n apelio at ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg o bob oedran, cefndir a gallu ieithyddol. Nod S4C yw bod yn gyrchfan ar gyfer cynnwys Cymraeg creadigol, gafaelgar a deniadol sydd ar gael i'w fwynhau ar amrywiol lwyfannau yng Nghymru a thu hwnt.

Mae swyddogaeth S4C yn unigryw. Rydym yn comisiynu, creu a dosbarthu cynnwys Cymraeg o ansawdd uchel. Mae S4C yn buddsoddi mewn ac yn ymbweru unigolion a chwmnïau i greu cynnwys apelgar ar gyfer defnyddwyr. Mae creadigrwydd wrth wraidd ein gwaith sy'n cael ei gyflawni drwy gydweithio'n agos gyda'r sector greadigol.



# NEGES GAN GADEIRYDD DROS DRO BWRDD S4C

Ar ran aelodau anweithredol Bwrdd S4C – sy'n gyfrifol am benodi'r Prif Weithredwr – diolch am eich diddordeb yn y swydd hon.

Yn ddiweddar, fe brofon ni gyfnod anodd yn fewnol yn S4C. Mewn ymateb, cyhoeddodd Bwrdd S4C Cynllun Gweithredu ar 29 Chwefror 2024. Cafodd ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, gan gynnwys aelodau staff ac undeb Bectu. Mae'n seiliedig ar bedair thema – arweinyddiaeth, diwylliant, polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol, a llywodraethu.

Mae Bwrdd S4C yn parhau i fonitro cyflawni'r Cynllun Gweithredu, ac fe geir copi llawn ohono ar wefan S4C.

Fodd bynnag, er gwaetha'r cyfnod anodd, rydym yn hynod o falch na wnaeth hyn effeithio ar y gwasanaethau y gwnaethom eu cynnig i'n cynulleidfaoedd, a'u gwerthfawrogiad nhw o'n cynnwys. Mae hyn yn dyst i waith caled ac ymroddiad ein staff a'r sector cynhyrchu cynnwys y mae S4C yn dibynnu arno.

Mae llwyddiannau cynnwys a chyrhaeddiad S4C dros y flwyddyn ddiwethaf yn dangos ein bod ni ar y trywydd cywir, ond mae llawer o waith o'n blaenau, yn cynnwys yr heriau digidol sy'n wynebu'r sector ddarlledu.

Dyma felly gyfle gwych i ni recriwtio rhywun uchelgeisiol i arwain S4C i'n pennod nesaf; rhywun sy'n rhannu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd ac sy'n barod i weithio gyda'r Bwrdd, staff S4C a'r sector i ddod â'r weledigaeth yna'n fyw.

'Rydym yn ddiolchgar i Sioned Wiliam am ei gwaith fel Prif Weithredwr dros dro dros y misoedd diwethaf, ac yn benodol am arwain y gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024. Mi fydd Sioned yn parhau yn ei swydd tan i'r Prif Weithredwr newydd ddechrau yn y swydd.




**Guto Bebb**
**Cadeirydd dros dro Bwrdd S4C**

# SWYDDOGAETH UNIGRYW S4C

Mae'r ffordd mae defnyddwyr yn ymwneud â chynnwys yn newid yn sylweddol ac mae'n rhaid inni ymateb i'r her. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen i ni adnabod ein cynulleidfa'n well gan ymateb i'w anghenion a chomisiynu cynnwys yn yr iaith Gymraeg sy'n feiddgar, clyfar, yn cynyddu gwerth ac yn creu argraff.

Mae'r Sector Creadigol yn mynd drwy newid sylweddol a chyffrous, lle mae dewis yn dominyddu'r farchnad, gyda mwy o gynnwys o ansawdd uchel ar gael gan fwy o ddarparwyr ar amrywiaeth cynyddol o lwyfannau. Mae Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn cydweithio i gofleidio cyfleoedd ar gyfer partneriaethau a chydweithio, a harneisio'r arloesedd digidol yn y cyfnod newydd hwn o ddarlledu. Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw conglfaen tirwedd cyfryngau'r DU, gan chwarae rôl hollbwysig i sicrhau bod cynulleidfaoedd y DU yn gallu cael gafael ar gynnwys ar draws ystod eang o genres.

Yn y cyd-destun hwn, mae S4C, fel yr unig ddarlledwr Cymraeg, yn sbardun i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Yn greiddiol i bwrpas cyhoeddus unigryw S4C yw'r rôl hanfodol y mae'n ei chwarae o ran cynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, gan adlewyrchu'r diwylliannau amrywiol sy'n defnyddio'r Gymraeg drwy ddarparu cynnwys hygyrch o ansawdd uchel.

Un her allweddol i S4C yw denu gwylwyr newydd o'r tu allan i gynulleidfaoedd teledu traddodiadol Cymraeg – gan hyrwyddo amrywiaeth a lluosogrwydd. Credwn fod yr iaith yn perthyn i bawb yng Nghymru, p'un a ydynt yn ei siarad y rhan fwyaf o'r amser, yn achlysurol neu ddim o gwbl. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050 ac mae gan S4C rôl hanfodol i'w chwarae o ran helpu i gyflawni hynny.

Mae rôl Prif Weithredwr S4C felly'n un sy'n cynnig cyfleoedd unigryw i lunio tirwedd y cyfryngau yng Nghymru a helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae Bwrdd Unedol S4C yn edrych ymlaen at dderbyn ceisiadau gan ymgeiswyr rhagorol sy'n hyderus yn eu gallu i arwain un o sefydliadau diwylliannol mwyaf deinamig a phwysig Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiweddaraf (2023–24), roedd gan Grŵp S4C – sy'n cwmpasu'r gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol – drosiant o £90.75m (o'r ffigwr hwn, derbyniwyd £88.96m trwy'r Ffi Drwydded, yn unol â chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon). Mae S4C hefyd yn derbyn 10 awr o raglenni yr wythnos gan y BBC yn unol â'r ddarpariaeth statudol berthnasol.

Dros yr un cyfnod, roedd gan S4C 116 o weithwyr ar gyfartaledd.

## ADRODDIAD BLYNYDDOL S4C 2023–24

Ar 29 Gorffennaf 2024, cyhoeddodd S4C ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023-24. Yn y cyhoeddiad hwn, ceir hyd i ffeithiau a gwybodaeth allweddol allai fod o ddiddordeb i ymgeiswyr ar gyfer swydd y Prif Weithredwr, gan gynnwys:

- Blaenoriaethau gwasanaethau a chynnwys S4C;
- Ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2022–27;
- Adolygiad blynyddol o berfformiad yn erbyn ein blaenoriaethau strategol, gan gynnwys cyrhaeddiad ein cynnwys;
- Cyfraniad S4C I'r gymdeithas a'r economi;
- S4C Masnachol – ein hadain fasnachol;
- Strwythur ein trefniadau llywodraethiant – gan gynnwys Bwrdd S4C, y Tîm Rheoli, a'u haelodaeth; a
- Perfformiad ariannol ar gyfer 2023–24.

Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gael yma: https://adroddiad.s4c.cymru/



# PRIF GYFRIFOLDEBAU'R PRIF WEITHREDWR

Y Prif Weithredwr yw llysgennad S4C gyda phrif gyfrifoldeb am holl weithgareddau S4C, ac wrth wneud hynny mae'n ymgorffori gwerthoedd craidd S4C. Y Prif Weithredwr sy'n goruchwylio ac yn rheoli holl agweddau golygyddol, ariannol, strategol a phobol y cwmni. Y Prif Weithredwr sydd yn sylfaenol gyfrifol am gyfeiriad strategol S4C yn ogystal â chreu'r weledigaeth am ei llwyddiant.

Bydd y Prif Weithredwr yn arweinydd ysbrydoledig, gydag agwedd greadigol ynghyd â thystiolaeth amlwg o'r gallu i reoli unigolion, timau a sefydliadau mewn ffordd deg a chymodol. Bydd gan yr unigolyn hanes profedig o ddod â staff a rhanddeiliaid a phartneriaid amlochrog ar daith. Bydd y Prif Weithredwr yn berchen ar sgiliau rhyngbersonol eithriadol, yn gyfathrebwr naturiol a lefel uchel o ddeallusrwydd emosiynol gyda'r gallu i greu a diwallu datrysiadau arloesol. Hyn oll er mwyn sicrhau bod arlwy aml blatfform S4C yn cyfoethogi ac yn bodloni anghenion ei chynulleidfa.

- Arwain y gwaith parhaus o gyflawni'r argymhellion a nodir yn adolygiad annibynnol S4C. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â digidol a'r iaith Gymraeg.
- Datblygu strategaethau a chynlluniau uchelgeisiol o ansawdd uchel gan sicrhau eu bod nhw'n cydweddu gydag amcanion y cwmni.
- Gweithredu fel y Prif Swyddog Cyfrifo a Phrif Olygydd S4C.
- Arwain ar y gwaith ar drefniadau ariannu S4C i'r dyfodol.
- Meithrin a chynnal perthnasau cryf â phrif randdeiliaid allweddol, yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chydwerth.
- Cydweithio'n agos gyda Chadeirydd ac aelodau Bwrdd Unedol S4C.
- Arwain ac ysbrydoli tîm rheoli cryf, gyda throsolwg ar ddiwylliant mewnol, perfformiad a lles y gweithlu cyfan.
- Arwain gweithgareddau masnachol S4C.
- Atgyfnerthu ymlyniad i holl bolisïau mewnol y cwmni.

***Arwain y gwaith parhaus i gyflawni'r argymhellion a nodir yn yr adolygiad annibynnol o S4C. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â digidol a'r iaith Gymraeg.***

- Sicrhau bod gweledigaeth yr adolygiad annibynnol yn cael ei gweithredu ar gyfer trosglwyddo S4C i fod yn endid cwbl ddigidol gan fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gynigir gan gynhyrchu a dosbarthu digidol.
- Arwain yr ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner perthnasol i helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn unol â strategaeth Cymraeg 2050.

***Datblygu strategaethau a chynlluniau uchelgeisiol o ansawdd uchel gan sicrhau eu bod nhw'n cydweddu gydag amcanion y cwmni.***

- Llunio gweledigaeth greadigol amlwg a'r gallu i'w gwireddu.
- Arwain y broses o adolygu, gan sicrhau cymeradwyaeth y Bwrdd, ac yna gweithredu strategaeth y sefydliad ar gyfer y cyfnod hynod gyffrous nesaf a sicrhau bod y sector yn esblygu yn unol â'r strategaeth.
- Rheolaeth dros holl weithgareddau'r sefydliad gan sicrhau canlyniadau da sy'n gyson â strategaeth a gweledigaeth S4C.
- Mae datblygu dealltwriaeth gyflawn o gyfansoddiad cynulleidfa S4C a'i disgwyliadau yn angenrheidiol.



### *Gweithredu fel y Prif Swyddog Cyfrifo a Phrif Olygydd S4C*

- Fel y Prif Swyddog Cyfrifo, y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am holl weithgareddau cyfrifo S4C ac yn atebol i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) am briodoldeb gwariant a rheolaeth arian gyhoeddus.
  _Y Prif Weithredwr sydd â chyfrifoldeb am benderfyniadau ariannol S4C gan gynnwys paratoi'r gyllideb a chynllun busnes hir dymor cyfatebol ar gyfer ei chymeradwyo gan y Bwrdd Unedol yn flynyddol.
  _Sicrhau priodoldeb gwariant cyfanswm yr arian cyhoeddus y mae S4C yn ei dderbyn trwy'r Ffi Drwydded, gan flaenoriaethu'r gwariant a sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian cyson.
  _Cynnal perthynas adeiladol gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel archwilydd allanol S4C.
  _Monitro systemau asesu risg.
  _Cynnal cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol uchel.
- Fel Prif Olygydd S4C, y Prif Weithredwr sydd â chyfrifoldeb dros holl benderfyniadau cynnwys a golygyddol S4C.
  _Sicrhau cydymffurfiaeth cynnwys perthnasol gyda Chod Darlledu Ofcom.
  _Sicrhau bod perfformiad gwasanaethau S4C yn cael ei fonitro a'i adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd.

### *Arwain y gwaith ar drefniadau ariannu S4C i'r dyfodol*

- Mae arian cyhoeddus S4C yn dod o'r Ffi Drwydded ac mae yna setliad ariannol yn ei le tan 2027/28. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi lansio adolygiad o fodel ariannu'r BBC am y cyfnod wedi hynny, ac mae darlledu mewn ieithoedd lleiafrifol yn rhan o'r adolygiad hwnnw.
- Y Prif Weithredwr fydd yn arwain ar y trafodaethau am y ffordd fydd S4C yn cael ei hariannu i'r dyfodol a beth fydd ei setliad ariannol ar ôl 2027/28, gan drafod gyda'r DCMS ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill.

### *Meithrin a chynnal perthnasau cryf â phrif randdeiliaid allweddol, yn seiliedig ar ymddiriedaeth*

- Y Prif Weithredwr yw prif bwynt cyswllt S4C o ran y berthynas gyda DCMS. Mae meithrin perthynas weithiol o'r radd flaenaf gyda swyddogion yr adran hon yn hanfodol ac yn flaenoriaeth i'r Prif Weithredwr. Bydd angen i'r Prif Weithredwr ddatblygu dealltwriaeth o gyd-destun gwleidyddol S4C fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus.
- Y Prif Weithredwr sydd hefyd yn gyfrifol am gynnal a datblygu perthynas S4C gyda'r BBC gan gynnwys monitro a sicrhau bod y cytundeb am ein gwasanaethau technegol yn gweithio'n effeithiol ac yn parhau'n addas ei bwrpas. Bydd y Prif Weithredwr hefyd yn chwarae rhan allweddol yn sicrhau bod yna gydweithio effeithiol rhwng S4C a'r BBC o ran darpariaeth arlwy rhaglenni i S4C yn unol â'r fframwaith statudol, ac yn arwain ar y trafodaethau am drefniadau amgen gyda'r BBC yn unol â'r hyn mae Deddf Cyfryngau 2024 yn caniatáu.
  Yn ogystal, bydd y Prif Weithredwr yn flaenllaw'n annog datblygu prosiectau creadigol newydd gyda'r BBC a phartneriaid eraill.
- Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am arwain y broses o ddatblygu perthynas weithiol dda gyda Chadeirydd a Bwrdd Unedol S4C gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu gydag aelodau'r Bwrdd yn rheolaidd ac yn amserol ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd a bod yna ddeialog rhwydd a phwrpasol gyda'r Bwrdd, yn bennaf ond heb ei neilltuo drwy'r Cadeirydd a / neu Ysgrifennydd y Bwrdd rhwng cyfarfodydd.
- Bydd gan y Prif Weithredwr ran allweddol i'w chwarae mewn cynnal a datblygu enw da S4C gydag ystod ehangach o randdeiliaid hefyd gan gynnwys y sector gynhyrchu yng Nghymru a TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru), cynrychiolwyr etholedig yn San Steffan, Senedd Cymru, Ofcom, Cymru Greadigol, y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill a defnyddwyr gwasanaethau S4C ledled Cymru a thu hwnt.

### *Arwain ac ysbrydoli tîm rheoli cryf, gyda throsolwg ar ddiwylliant mewnol, perfformiad a lles y gweithlu cyfan*

- Y Prif Weithredwr sydd yn gyfrifol am oruchwylio'r diwylliant mewnol a gofal am bobol S4C, gan sicrhau lles y gweithlu a sicrhau eu bod nhw'n taro cydbwysedd iachus rhwng gwaith a bywyd personol.
- Blaenoriaeth arall y Prif Weithredwr yw sicrhau bod cyfansoddiad yr Uwch Dîm Rheoli'n gywir ac yn addas ei bwrpas o ran galluogi S4C i gyflawni ei holl amcanion. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yna sianelau cyfathrebu clir ac effeithiol rhwng aelodau'r Uwch Dîm Rheoli a'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli a'i dimoedd amrywiol.
- Sicrhau bod strwythur staffio priodol yn ei le sy'n galluogi S4C i gyflawni ei weledigaeth yn bwrpasol ac effeithiol.
- Cynnal gweithlu talentog ac ymroddgar gan sicrhau cyfleoedd priodol ar gyfer hyfforddiant a datblygu gyrfa.

### *Arwain gweithgareddau masnachol S4C*

- Y Prif Weithredwr yw Cadeirydd Bwrdd Grŵp Masnachol S4C sy'n gyfrifol am strategaeth a gweithgareddau masnachol y sefydliad. Mae'r Bwrdd Masnachol yn cynnwys aelodau anweithredol annibynnol, cyfarwyddwyr anweithredol sy'n cynrychioli Bwrdd S4C ac aelodau sy'n swyddogion gweithredol S4C.
- Bydd disgwyl i'r Prif Weithredwr arwain ar adolygu a gweithredu'r strategaeth fasnachol (sydd wedi ei chymeradwyo gan Fwrdd Unedol S4C), gan gynnwys rheoli buddsoddiadau cyfredol a newydd er mwyn cynyddu incwm hir dymor y gronfa a chynyddu buddsoddiad y gwasanaeth cyhoeddus.
- Mae cynhyrchu refeniw masnachol ystyrlon i ategu cyllid cyhoeddus yn un o swyddogaethau craidd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a bydd disgwyl i'r Prif Weithredwr ddod â menter fasnachol i galon gwasanaethau cyhoeddus S4C wrth iddi gamu i'r gofod digidol.

### *Atgyfnerthu ymlyniad i holl bolisïau mewnol y sefydliad*

- Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb dros hyrwyddo ac atgyfnerthu ymlyniad y gweithlu i holl bolisïau mewnol S4C. Mae hyn yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i ddatblygu a hyrwyddo system rheoli perfformiad addas, cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg, materion Iechyd a Diogelwch, Rheoli Data a gweithredu fel y 'Person Cymwys' o ran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Mae cynyddu amrywiaeth mewn darlledu'n flaenoriaeth i'r sector a rhaid i Brif Weithredwr S4C fynd i'r afael â'r her drwy gydweithio a rhannu arfer da gyda'r darlledwyr a phartïon â diddordeb eraill.
- Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw sicrhau bod gan S4C amgylchedd gwaith lle mae pawb yn trin ei gilydd gyda pharch a lle mae urddas a thegwch wrth wraidd holl weithgareddau'r cwmni.
- Sicrhau bod cyfathrebu ar draws y sefydliad yn digwydd yn hwylus ac yn agored gan sicrhau gweithlu hapus, ymroddgar a gweithgar.



Y Frwydr:
Stori Anabledd

## SGILIAU A PHROFIAD

| *Sgiliau a phrofiad* | *Hanfodol* | *Dymunol* |
|---|---|---|
| Yn arweinydd hyderus ac egnïol gyda sgiliau rheoli o'r radd flaenaf | √ | |
| Profiad o weithio yn y diwydiannau creadigol | | √ |
| Sgiliau cyfathrebu gwych, a'r gallu i gyfathrebu yn ysgrifenedig ac ar lafar yn Gymraeg a Saesneg | √ | |
| Dealltwriaeth o swyddogaeth S4C | √ | |
| Trac record brofedig o lunio a gweithredu strategaethau clir, uchelgeisiol a llwyddiannus | √ | |
| Profiad o oruchwylio a gweithredu rhaglenni rheoli newid a meithrin diwylliant o drawsnewid, gweledigaeth a gwerthoedd 'pobl yn gyntaf' | √ | |
| Profiad eang o gyfathrebu a meithrin perthnasau cryf gydag ystod eang o randdeiliaid ar lefel uwch. | √ | |
| Profiad o gydweithio gyda Bwrdd a strwythurau a gofynion ymarfer da o ran llywodraethu corfforaethol | √ | |
| Sgiliau rhyngbersonol eithriadol gyda lefel uchel o ddeallusrwydd emosiynol | √ | |
| Meddwl craff a chreadigol gyda'r gallu i ddadansoddi sefyllfaoedd cymhleth gan greu a diwallu datrysiadau arloesol | √ | |
| Dealltwriaeth eang o'r dirwedd gyfryngol yng Nghymru a thu hwnt gan gynnwys y datblygiadau diweddaraf a'r heriau | | √ |
| Dealltwriaeth o'r goblygiadau o fod yn Brif Swyddog Cyfrifo | √ | |
| Dealltwriaeth o'r fframwaith/ gofynion rheoleiddiol a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm o fod yn Brif Olygydd S4C | √ | |
| Profiad o weithio ym myd busnes neu o fewn y cyfryngau digidol | | √ |
| Ymwybyddiaeth o saith egwyddor bywyd cyhoeddus a'u pwrpas | √ | |



Pride Cymru, 2024

# TELERAU AC AMODAU

***Lleoliad:***

Lleoliad arferol eich gwaith fydd Canolfan S4C yr Egin, Heol y Coleg, Caerfyrddin SA31 3EQ ond disgwylir i chi deithio i le bynnag y bydd S4C yn rhesymol yn ei orchymyn.

Rydym yn annog pob cyflogai i gael cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith ac yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg, megis gweithio ystwyth, ynghyd ag ystod eang o batrymau gwaith gwahanol. Mae pob un ohonynt yn amodol ar anghenion busnes.

***Cyflog a Buddion:***

Yn gymesur â swyddogaeth a phrofiad yr ymgeisydd llwyddiannus. Nid yw S4C yn cynnig unrhyw fath o dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad na thaliadau uwch, lwfans car na darpariaethau Yswiriant Iechyd.

Er gwybodaeth, mae amodau cyffredinol S4C ar gyfer cyflogeion fel a ganlyn:

Mae pob aelod o staff S4C yn derbyn gwerthusiad blynyddol gan ei reolwr llinell. Yn achos y Prif Weithredwr, y Cadeirydd a Chadeiryddion y pwyllgorau Archwilio a Risg, a Phobl a Thaliadau sy'n gyfrifol am hyn.

Oriau swyddfa arferol S4C yw rhwng 9.00am a 5.15pm, o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 9.00am a 4.45pm ddydd Gwener. (Oherwydd natur y swydd bydd angen peth hyblygrwydd yn achlysurol.

Byddai cyflog y swydd yn ystyried unrhyw oramser rhesymol y gallai fod yn ofynnol i chi ei weithio)

Yn ogystal â gwyliau banc statudol bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau â thâl bob blwyddyn, a bydd y flwyddyn honno yn cychwyn ar ddyddiad dechrau eich cyflogaeth gydag S4C. Ar ôl cwblhau 5 mlynedd o wasanaeth byddwch yn cronni 2 ddiwrnod ychwanegol o wyliau yn ogystal ag 1 diwrnod ychwanegol o wyliau bob blwyddyn ar ôl hynny hyd at uchafswm o 32 o ddiwrnodau bob blwyddyn ar ôl 9 mlynedd o wasanaeth.

Bydd gennych hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn unol â rheolau Cynllun o'r fath, a gaiff eu diwygio o bryd i'w gilydd. Pe byddech yn ymuno â'r cynllun, byddai S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol tuag at y Cynllun hwn a byddai disgwyl i chi gyfrannu 5%.

Caiff aelodau staff S4C eu cynnwys yn awtomatig yng Nghynllun Marwolaeth mewn Gwasanaeth S4C (ac S4C sy'n talu'r costau).

Gogglebocs
Cymru



### *Sut i ymgeisio*

Am sgwrs anffurfiol a mwy o fanylion, cyswllt gyda thîm Odgers Berndtson yng Nghymru ar OdgersWalesPractice@odgers.com. I wneud cais, danfonwch e-bost gyda'ch llythyr cais a CV at 92054@odgers.com.

Bydd pob cais yn cael ei gydnabod. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

### *Y broses chwilio*

Bydd y broses i benodi Prif Weithredwr newydd yn cael ei harwain gan aelodau anweithredol Bwrdd S4C, fydd yn ffurfio'r panel penodi. Yr aelodau hyn yw:

- Guto Bebb, Cadeirydd dros dro
- Suzy Davies
- Adele Gritten
- Chris Jones
- Denise Lewis Poulton

Bydd y panel yna'n asesu eich cais i ddewis y rhai sy'n cyd-fynd orau â'r rôl trwy ystyried y dystiolaeth rydych wedi'i darparu yn erbyn y meini prawf a nodir yn y ddogfen hon.

Yna bydd ymgeiswyr sy'n symud ymlaen yn cael eu cynnwys ar y rhestr fer a gofynnir iddynt gwblhau/mynychu'r camau canlynol.

### *Cyfweliadau gydag Odgers*

Bydd Odgers Berndtson yn cynnal cyfweliadau sy'n seiliedig ar gymhwysedd ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sydd ar y rhestr fer. Bydd y rhain yn cael eu cynnal tua chanol mis Hydref 2024.

### *Asesiadau Seicometrig*

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer hefyd yn cael eu gwahodd gan Odgers Berndtson i gwblhau asesiadau seicometrig – gan gynnwys asesiad seicometrig Mewnwelediad Ymgeiswyr, a fydd ar ffurf holiadur ar-lein. Bydd y rhain yn cael eu cynnal tua chanol mis Hydref 2024.

### *Ymgysylltiad â staff*

Gofynnir i ymgeiswyr ar y rhestr fer baratoi a rhoi cyflwyniad pum munud i grŵp o staff o raddau amrywiol. Caiff y teitl yn cael ei ddarparu i'r ymgeiswyr ar y rhestr fer ymlaen llaw. Yna, bydd y staff yn gofyn cwestiynau ac yn cael trafodaeth gyda'r ymgeisydd am 30 munud.

Yna bydd Cadeirydd y Panel Staff yn rhoi adborth i'r Panel Penodi, fodd bynnag, nodwch na fydd yr ymgysylltiad staff yn arwain at benderfyniad llwyddiant neu fethiant; yn hytrach, y bwriad yw tynnu sylw at gryfderau a phryderon posibl y gall y panel eu harchwilio yn y cyfweliad.

Bydd sesiwn hefyd yn cael ei gynnal ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer gydag aelodau o'r Tîm Rheoli.

Bydd y sesiynau hyn yn digwydd tua diwedd mis Hydref/dechrau Tachwedd 2024, a byddant yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yng Nghanolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin.

### *Cyfweliad terfynol gyda'r panel*

Gofynnir i chi fynychu cyfweliad panel er mwyn cael trafodaeth fanylach ar eich profiad blaenorol a'ch cymhwysedd proffesiynol mewn perthynas â'r meini prawf a nodir yn y ddogfen hon. Bydd y cyfweliadau hyn yn cael eu cynnal mewn person yng Nghanolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin.

Bydd cyfweliadau'n cynnwys cwestiynau lle bydd disgwyl i ymgeiswyr adeiladu ar y wybodaeth a ddarperir yn eu datganiad personol a'u CV.

Efallai y gofynnir i ymgeiswyr baratoi cyflwyniad byr ar bwnc fydd yn cael ei gadarnhau os cânt eu gwahodd i gyfweliad.

Bydd y rhain yn digwydd tua diwedd mis Hydref/dechrau mis Tachwedd 2024.

### *Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth*

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.



Pride Cymru, 2024